YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR


Tymor y Gwanwyn (i) 2020 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

# Bant â ni i gynllunio!

**Hoffwn i ddysgu am fwydydd o gwmpas y byd.** Gwen

**Dysgu am faneri gwledydd eraill.**

Pawb




**Hoffwn i ddysgu iaith newydd!**

Sebastian

**Beth am ddysgu enwi'r gwledydd o gwmpas y byd?** Harri

**Beth am ddysgu am anifeiliaid mewn gwlad arall?**

Rosie

**Beth am gymharu gwlad arall gyda Cymru?**

Pawb

**Hoffwn i ddarganfod sut mae pobl mewn gwledydd eraill yn byw.**

Ruby

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Gwanwyn (i) 2020 – Dosbarth Bl 1 a 2 Mrs Williams, Mr Jones a Mrs Evans

## Thema'r tymor yw: **Y Byd Mawr Crwn**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu sut i gadw'n ddiogel ar y we a defnyddio offer TGCh yn ddiogel.
- Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol.
- Cynllunio ac adeiladu amrywiol adeiladau a gwrthrychau gan ddefnyddio offer o bob math.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Datblygu sgiliau cymysgu paent a pheintio tirluniau.
- Dysgu caneuon newydd a gwrando ar gerddoriaeth o Gymru ac o wledydd eraill.
- Datblygu ein sgiliau dawnsio creadigol a dawnsio gwerin.

**Y Dyniaethau**

- Defnyddio sgiliau ymchwilio daearyddol er mwyn cymharu Cymru ac ardal Abertawe gyda gwlad arall. (Rydyn ni wedi cynnal pleidlais er mwyn dewis gwlad i'w hastudio.)
- Cymharu ffactorau megis y tywydd, y boblogaeth, nodweddion daearyddol, a ffordd o fyw yn y ddwy wlad.
- Rhyfeddu at harddwch a gwerthfawrogi'r byd o'n cwmpas.

**Iechyd a Lles**

- Ymarfer a datblygu ein sgiliau corfforol a pharhau i wella ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Mwynhau'r syniad o berthyn i'n cymuned leol ac i Gymru.
- Mwynhau darganfod ynglŷn â sut y mae pobl eraill mewn gwahanol lefydd yn y byd yn byw.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni geisio ei ddychwelyd ar ddydd Llun.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Bl.2)

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBrynymor1**

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Creu cornel chwarae 'I ble'r awn ni heddiw?' a mwynhau teithio ar ein carped hud .
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan gynnwys cofnodi ffeithiau ac ysgrifennu cerdyn post.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio a thynnu i ffwrdd.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur pwysau a dysgu am siap a chymesuredd.
- Chwarae llawer o gemau mathemateg pen.

**Ymweliadau**

Traeth Abertawe – dyddiad i'w gadarnhau

Parc Brynmill – i'w gadarnhau